Gwers: Parciau Cenedlaethol

Amcanion Dysgu:

- Dysgu lleoliadau ac enwau'r Parciau Cenedlaethol.
- Ymchwilio i wybodaeth briodol gan ddilyn canllawiau.
- Defnyddio TGCh i lunio syniadau.
- Rhannu syniadau ag eraill/gwaith tîm.

I ddechrau: Defnyddiwch fap (taflunydd/bwrdd gwyn/taflenni) sy'n dangos y Parciau Cenedlaethol heb labeli. Dylai'r disgyblion ddyfalu beth yw eu henwau. Os yw'n rhy anodd rhowch restr o'r parciau i'r disgyblion iddynt geisio eu cyfateb â'r map.	**Disgyblion** Ceisio dyfalu enwau'r Parciau Cenedlaethol o brofiad blaenorol. Defnyddiwch y rhestr os oes angen.	**Athro** Dangos y map i'r disgyblion, a'u cynorthwyo i labelu'r map yn gywir.
Prif dasg: Dewiswch un Parc Cenedlaethol i ganolbwyntio arno. Rhoddir 'thema' i bob tîm a chyfnod penodol o amser i ymchwilio a chynhyrchu taflen ffeithiau A4 ar y thema honno. Dylai'r daflen ffeithiau gynnwys delwedd, map, ffeithiau diddorol. Dylai'r disgyblion ystyried y fformat yn ofalus a'r ffordd fwyaf effeithiol o arddangos y wybodaeth e.e. blychau testun, pwyntiau bwled.	**Disgyblion** Gweithio yn eu timau i ymchwilio eu thema a defnyddio TGCh i gynhyrchu eu taflen ffeithiau o fewn y terfyn amser.	**Athro** Dewis pa Barc Cenedlaethol i ganolbwyntio arno. Rhoi gwybodaeth/data i'r disgyblion neu eu cyfeirio at adnoddau/gwefannau priodol. Rhoi'r disgyblion mewn timau priodol ac ystyried pa thema sy'n briodol ar gyfer pa dîm.
Sesiwn lawn: Dylai'r disgyblion roi adborth ar eu canfyddiadau i weddill y dosbarth. Rhowch bosteri ar y waliau wrth i bob grŵp orffen.	**Disgyblion** Penderfynu pa aelod o'r tîm fydd yn rhoi'r adborth, gwrando ar y timau eraill. Llunio arddangosfa wal.	**Athro** Trefnu sesiwn adborth ac arddangosfa wal.

Canlyniadau:
Bydd pob disgybl yn: Ceisio labelu'r map, chwilio am wybodaeth ar eu thema, helpu i lunio taflen ffeithiau.
Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn: Dod o hyd i ffeithiau priodol ar gyfer eu thema, rhoi syniadau ar lunio taflen ffeithiau.
Bydd rhai disgyblion yn: Rhoi adborth i'r dosbarth cyfan, arwain y tîm, meddu ar wybodaeth flaenorol am Barciau Cenedlaethol.

Adnoddau:
Taflunydd, Cyswllt â'r rhyngrwyd, Cyfleusterau prosesu geiriau/cyhoeddi pen desg, Deunydd wedi'i argraffu/llyfr gwybodaeth, taflenni taflunydd/taflenni o fapiau heb labeli.

Rheolaeth yn yr Ystafell Ddosbarth:
Dosbarth cyfan, Gwaith tîm

Geiriau allweddol: Parciau Cenedlaethol, Amgylchedd, Ardaloedd penodol, Mapiau, Gwybodaeth, Ymchwil.	**Cysylltiadau Strategaeth CA3/CC/Cysylltiadau Traws-Gwricwlaidd:** **Daearyddiaeth**: CC 1d/2c/3/6j/7b (Blwyddyn 8) **TGCh**: Fframwaith CA3, Cyfnewid a Rhannu Gwybodaeth Canfod Pethau (Blwyddyn 8)

Gwybodaeth flaenorol:
Dim.

Asesiad o'r Dysgu:
Trafodaeth dosbarth cyfan, atebion i weithgareddau, taflenni ffeithiau a gynhyrchwyd gan y timau.

Gweithgaredd Ymestyn:
Llunio adroddiad cynhwysfawr ar y 'themâu', gan drafod sut lefydd fydd y Parciau Cenedlaethol yn 2050 yn eu barn hwy.

Syniadau Gwaith Cartref:
Ymarferiad darllen a deall/holi ac ateb i asesu'r dysgu, Dewis thema/parc gwahanol i'w ymchwilio.

Nodiadau:
I ddechrau:
Mae'r map, sydd wedi'i labelu'n llawn, i'w weld yn:
http://www.statistics.gov.uk/geography/downloads/GB_NatParks_2005.pdf
Prif dasg:
Syniadau ar gyfer 'thema', Nodweddion y Tirlun, Bywyd Gwyllt, Beth yw Parc Cenedlaethol, Materion Amgylcheddol, Twristiaeth, Cymunedau (sy'n byw mewn Parc Cenedlaethol), Cerdded a Thrafnidiaeth, Hanes.

Cysylltiadau defnyddiol (nid yw'n rhestr gyflawn o bell ffordd) :
http://www.nationalparks.gov.uk/
http://curriculum.becta.org.uk/docserver.php?docid=3449
http://tre.ngfl.gov.uk/server.php?request=cmVzb3VyY2UuZnVsbHZpZXc%3D&resourceId=8661
http://www.cnp.org.uk/
http://www.lake-district.gov.uk/
http://www.dartmoor-npa.gov.uk/
http://www.yorkshiredales.org.uk/
http://www.naturenet.net/status/npark.html

Eich nodiadau/cwestiynau:

Nodiadau ar y wers/gwerthusiad

Crëwyd yr adnodd hwn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn www.statistics.gov.uk